



**ADDYSG CYMRU**  
**EDUCATION WALES**  
cenhadaeth ein cenedl | our national mission



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ymgynghoriad ar y Cod Anghenion  
Dysgu Ychwanegol drafft –  
crynodeb o'r adborth o  
ddigwyddiadau ymgysylltu â  
phlant, pobl ifanc a rhieni

# Ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft – crynodeb o'r adborth o ddigwyddiadau ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a rhieni

## Cynulleidfa

Ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, lleoliadau'r blynyddoedd cynnar, sefydliadau'r trydydd sector ac unrhyw un arall â diddordeb mewn anghenion dysgu ychwanegol.

## Trosolwg

Ceir yn yr adroddiad hwn grynodedb o'r adborth a ddarparwyd mewn gweithdai ynghylch yr ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft i Gymru o'r digwyddiadau ymgysylltu a gynhaliwyd â phlant, pobl ifanc a rhieni yn ystod y cyfnod ymgynghori.

## Camau i'w cymryd

I'w ddarllen ar y cyd â'r crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft.

## Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:  
Tîm Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol  
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr  
Y Gyfarwyddiaeth Addysg  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
Ffôn: 03000 253 650

e-bost: [SENReforms@llyw.cymru](mailto:SENReforms@llyw.cymru)

 [@LIC\\_Addysg](https://twitter.com/LIC_Addysg)

 [Facebook/AddysgCymru](https://www.facebook.com/AddysgCymru)

## Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn <https://llyw.cymru/cod-anghenion-dysgu-ychwanegol-drafft>

## Dogfennau cysylltiedig

*Cod Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (2018)*

*Dogfen Ymgynghori y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol: Ymgynghoriad i blant a phobl ifanc (2018)*

*Y Cod Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol dogfen ymgynghori hawdd ei deall (2018)*

*Fersiwn Ddrafft o'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol crynodeb o'r ymatebion (2019)*

# Cynnwys

1.	Rhagarweiniad	3
2.	Cwestiynau'r ymgynghoriad	5
3.	Methodoleg	6
4.	Digwyddiadau Ymgysylltu	7
5.	Ymatebion fesul cwestiwn	9
6.	Casgliad	35

# Cydnabyddiaeth



Cyflwynwyd y gweithdai cyfranogiad a'r adroddiad hwn ar ran Llywodraeth Cymru gan Re:Cognition.

Hoffai Re:Cognition gydnabod gwaith caled a chydweithrediad y plant a'r bobl ifanc a wnaeth yr ymarferiad ymgynghori hwn yn bosibl. Hoffem hefyd ddiolch a chydabod cymorth y sefydliadau a hwylusodd fynediad i'w plant a'u pobl ifanc. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Ysgol Gynradd Llwynocrwn
- Ysgol Portfield
- Ysgol Uwchradd Rhyl
- Coleg Cambria Llaneurgain
- Ysgol y Gogarth
- Ysgol Gynradd Glyncollen
- Ysgol Tŷ Coch
- Canolfan Addysg Tai
- Grŵp Addysg Gartref Castell-nedd
- Coleg Pen-y-bont
- Ysgol y Strade
- Ysgol Penmaes

# 1. Rhagarweiniad

Derbyniodd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thriwlynlys Addysg (Cymru) 2018 ('y Ddeddf') gydsyniad brenhinol ym mis Ionawr 2018. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer fframwaith statudol newydd ar gyfer rhoi cymorth i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol ('ADY'). Bydd y ddeddf hon yn disodli'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig ('AAA') ac asesu plant a phobl ifanc ag anawsterau a/neu anabledau dysgu ('AAD') mewn addysg a hyfforddiant ôl-16.

Mae gan y Ddeddf dri amcan trosfwaol, y bwriedir i'r Cod ADY drafft a'r rheoliadau arfaethedig eu cynorthwyo. Y rhain yw:

- Fframwaith deddfwriaethol unedig sy'n cynnig cymorth i bob plentyn o oedran ysgol gorfodol neu'n ieuengach sydd ag ADY, a phobl ifanc ag ADY mewn ysgolion neu addysg bellach;
- Proses integredig, gydweithredol o asesu, cynllunio a monitro sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol; a
- System deg a thryloyw ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor, ac ar gyfer datrys pryderon ac apeliadau.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod ADY, ac mae'n darparu Gweinidogion Cymru â nifer o bwerau ar gyfer llunio rheoliadau Bydd y Cod ADY yn disodli'r Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2002 cyfredol. Bydd gofyn i awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach (SAB) yng Nghymru a nifer o awdurdodau cyhoeddus eraill<sup>1</sup> ystyried canllawiau perthnasol yn y Cod ADY wrth arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf, a chydymffurfio â'r gofynion gorfodol y mae'n ei chynnwys.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cod ADY drafft rhwng 10 Rhagfyr 2018 a 22 Mawrth 2019. Diben yr ymgynghoriad oedd casglu barn ar reoliadau'r Cod ADY drafft parthed Tribiwnlys Addysg Cymru a Chydlynwyr ADY, a'r bwriad polisi ar gyfer nifer o reoliadau arfaethedig eraill. Yn ogystal, roedd yn ceisio barn ar ddiwygiadau arfaethedig i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Rhan 6 Cod Ymarfer - Plant y Gofalir Amdanynt a'r rheiny y Rhoddir Llety Iddynt, a wnaed yn bennaf mewn perthynas â phlant y gofalir amdanynt sydd ag ADY.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru hefyd fersiwn 'hawdd ei darllen' o'r ddogfen ymgynghori ac un wedi'i hanelu at blant a phobl ifanc.

Er mwyn sicrhau bod barn plant a phobl ifanc yn cael ei chasglu i lywio'r broses ymgynghori, comisiynodd Llywodraeth Cymru Re:Cognition i gynllunio a chyflwyno cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu hygyrch, dwyieithog ledled Cymru gydag

---

<sup>1</sup> Fel y nodir yn Adran 4(3) y Ddeddf

amrywiaeth o blant, ifanc pobl a rhieni. Roedd hyn yn cynnwys datblygu deunyddiau ymgynghori dwyieithog wedi'u llunio'n arbennig i'w defnyddio yn y sesiynau cyfranogiad. Cynlluniwyd y rhain i ganiatáu i'r cyfranogwyr feddu ar y ddealltwriaeth angenrheidiol o natur, maint ac effaith y Cod ADY drafft, er mwyn eu galluogi i gyfrannu eu barn bersonol yn llawn mewn ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno crynodeb o farn y rheiny a fynychodd weithdai ymgysylltiad yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Cynhaliwyd y sesiynau ymgysylltu â dysgwyr ag AAA ac AAD ac o wahanol sefydliadau addysg gan gynnwys:

- ysgolion prif ffrwd;
- ysgolion arbennig;
- uned cyfeirio disgyblion;
- addysg gynradd ac uwchradd;
- sefydliadau addysg bellach; ac
- amgylcheddau cyfrwng Saesneg a Chymraeg.

Yn ogystal â hyn, aeth Re:Cognition ati i geisio barn teuluoedd a gofaluwr am blant yn y grwpiau uchod, a phlant y gofalir amdanynt gan awdurdodau lleol (mae darpariaethau penodol ar eu cyfer yn y system newydd arfaethedig).

Cynhaliwyd 21 gweithdy ymgysylltiad, gyda chyfanswm o 228 o gyfranogwyr. Strwythurwyd pob gweithdy i roi'r wybodaeth berthnasol i'r cyfranogwyr er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus a grymus wrth ymateb i'r 15 cwestiwn yn yr ymgynghoriad.

Roedd y gwaith hwn yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel yr adlewyrchir ym Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae'r gwaith hwn hefyd yn cynorthwyo gofynion statudol Llywodraeth Cymru o ran dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

## 2. Cwestiynau'r ymgynghoriad

Mae'r rhestr isod yn cynnwys y cwestiynau ymgynghori sy'n sail i'r ymgynghoriad hwn:

- C1 Ydych chi'n meddwl mai'r rhain yw'r syniadau cywir?
- C2 Ydych chi'n hoffi ein syniadau o'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys yn y Cynllun?
- C3 Oes gennych chi unrhyw syniadau am beth arall y dylid ei gynnwys yn y Cynllun?
- C4 Beth ydych chi'n ei feddwl ynglŷn â faint o amser fydd gan ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol i wneud Cynlluniau?
- C5 Beth ydych chi'n ei feddwl ynglŷn â phobl yn cael 6 wythnos i ateb cwestiwn gan awdurdod lleol am yr help sydd ei angen arnoch?
- C6 Beth ydych chi'n feddwl ynglŷn â'r gwasanaethau iechyd yn cael 6 wythnos i ddweud wrth bobl sut y gallant eich helpu yn yr ysgol?
- C7 Beth ydych chi'n ei feddwl ynglŷn ag ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol yn cael 7 wythnos i adolygu'r Cynlluniau y maent yn eu gwneud?
- C8 Beth ydych chi'n ei feddwl ynglŷn ag awdurdodau lleol yn cael 7 wythnos i adolygu'r Cynlluniau a wnaed gan ysgolion?
- C9 Beth ydych chi'n ei feddwl ynglŷn â'n syniadau am yr hyn y dylai awdurdodau lleol ei wneud i helpu atal dadleuon a'u datrys?
- C10 Beth ydych chi'n ei feddwl ynglŷn â'n syniadau am yr hyn y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei wneud i sicrhau eich bod yn gwybod ble i ddod o hyd i eiriolwr?
- C11 Beth ydych chi'n ei feddwl ynglŷn â sut y bydd yn gweithio pan fyddwch yn gofyn i farnwr benderfynu pwy sy'n iawn?
- C12 Pan fyddwch yn derbyn eich cynllun, os nad ydych yn fodlon ag ef, mae gennych chi neu'ch teulu 8 wythnos i ddweud wrth y barnwr nad ydych yn fodlon â phenderfyniad a wnaed am eich ADY. Yn ystod yr 8 wythnos hyn bydd angen i chi neu'ch teulu hefyd ddweud wrth y barnwr yr holl resymau pam nad ydych yn fodlon â'r penderfyniad. Gelwir hyn yn achos. Beth ydych chi'n ei feddwl ynglŷn â faint o amser fydd gennych chi neu'ch teulu i ysgrifennu at y barnwr yn dweud pam nad ydych chi'n fodlon â'r cynllun?
- C13 O fewn 4 wythnos i dderbyn eich achos, rhaid i'r awdurdod lleol neu'r coleg ddweud wrth y barnwr pam eu bod nhw'n credu bod eu Cynllun yn iawn. Beth ydych chi'n ei feddwl ynglŷn â faint o amser fydd gan awdurdodau lleol a cholegau i anfon achos at y barnwr?
- C14 Ydych chi'n credu mai'r pethau hyn yw'r pethau iawn i Gydlynwyr ADY eu gwneud i helpu plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol?
- C15 Ydych chi'n credu ei bod yn bwysig bod y Cydlynnydd ADY yn athro neu'n rhywun sydd eisoes yn Gydlynnydd AAA?

### 3. Methodoleg

Ein pwrpas drwy gydol yr ymgynghoriad hwn oedd casglu barn ystyrlon gan blant, pobl ifanc a rhieni y bydd y cynigion yn y Cod ADY drafft yn effeithio arnynt yn uniongyrchol. Roedd ein methodoleg wedi'i hanelu at sicrhau bod y cyfranogwyr yn teimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel, yn ogystal â'u bod yn deall y materion dan sylw, er mwyn iddynt fod yn gwbl barod ac yn gallu rhoi barn onest, wedi'i hystyried yn ofalus.

Er mwyn sicrhau bod y cyfranogwyr yn cael eu galluogi i gymryd rhan mor llawn â phosibl, roedd yn hanfodol ein bod yn cyfathrebu manylion a chefnidir y Ddeddf a'r Cod ADY drafft mewn modd clir oedd yn mynd i ennyn diddordeb. Roedd y ffyrdd yr aethom ati i wneud hyn yn amrywio rhwng grwpiau er mwyn eu teilwra'n briodol at brofiad a lefel dealltwriaeth pob cynulleidfa, ond roeddent bob amser yn seiliedig ar ddefnyddio technegau drama syml, ymarferion gweithredol a chyflwyniadau wedi'u hanimeiddio.

Ein nod oedd cynhyrchu data ansoddol a meintiol drwy annog cyfranogwyr i rannu eu syniadau ynglŷn â phob un o'r materion dan sylw. Gyda phob un o'r 15 cwestiwn, gofynnwyd i gyfranogwyr esbonio pam roeddent yn meddwl bod y cynigion yn y Cod ADY drafft yn rhai da, yn rhai gwael neu eu bod ddim yn gwybod, yn ogystal ag ystyried pa fanteision neu broblemau posibl a allai ddod yn sgil y drafft ar gyfer y Cod ADY. Serch hynny, gofynnwyd cwestiynau dim ond ar ôl i'r hwylusydd fod yn fodlon bod lefel dealltwriaeth y cyfranogwyr yn ddigonol i alluogi ymatebion ystyrlon. Roedd cymhlethdod y materion dan sylw, ynghyd â'r carfanau yr ymgysylltwyd â nhw, yn golygu'n aml fod angen ail-gyflwyno elfennau o'r hyn a ddysgwyd, gan gynnwys mynd yn ôl dros sleidiau a ddangoswyd yn flaenorol.

Er mwyn galluogi cyfranogwyr i ymddiddori yng nghynnwys yr ymgynghoriad a sut mae'n cysylltu'n uniongyrchol â'u bywyd addysgol, ar gyfer pob maes thematig aethom ati i:

- a. Gynnig gwybodaeth
- b. Ymchwilio i faterion
- c. Ail-gyflwyno gwybodaeth
- d. Casglu barn

Yn gyffredinol roedd y gweithdai yn dilyn strwythur tebyg:

1. Croeso ac ymglyfarwyddo
2. Edrych yn fanwl ar ddeddfau, codau, cynlluniau a rôl Llywodraeth Cymru
3. Cymharu AAA ag ADY
4. Cymharu'r cynlluniau presennol â'r Cynllun Datblygu Unigol (CDU) newydd
5. Beth mae'n ei gynnwys, llunio a diweddarau'r CDU
6. Llunio ac adolygu amserlenni
7. Atal anghytuno ac apelio yn erbyn penderfyniadau
8. Rôl a swydd Cydlynedd ADY
9. Dod â'r gweithdy i ben



## 4. Digwyddiadau Ymgysylltu

Ffurfiwyd y garfan ar gyfer yr ymgynghoriad i gynnwys plant, pobl ifanc a rhieni y bydd y cynigion yn y Cod ADY drafft yn effeithio arnynt yn uniongyrchol. Roedd y sampl yn cynnwys plant a phobl ifanc ar draws sbectrwm o anghenion, o Weithredu gan yr Ysgol / Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, i'r rhai â datganiadau. Yn ogystal, cynhaliwyd gweithdy gyda grŵp cymysg a oedd yn cynnwys nifer o blant a phobl ifanc nad oedd ganddynt AAA. Yn ddiddorol, yn y grwpiau cymysg, mae'n werth nodi mai'r rhai a fynegodd y safbwyntiau cryfaf oedd y rhai oedd yn hunan-ddiffinio fel bod ag AAA. Nodwyd hefyd bod y plant hyn ag AAA yn cael cefnogaeth dda iawn gan y rheiny nad oedd ganddynt angen dysgu ychwanegol.

Ni fwriadwyd yr ymarferiad erioed i ddarparu canlyniadau ystadegol arwyddocaol, a fyddai wedi golygu cynnal astudiaeth lawer ehangach, ond yn hytrach i roi cipolwg o safbwyntiau amrywiaeth o blant, pobl ifanc a rhieni a gymerodd ran yn y gwaith hwn.

Cynhaliwyd 15 o weithdai ar gyfer plant a phobl ifanc yn yr 11 lleoliad a nodwyd yn y tabl isod. Roedd y lleoliadau hyn yn cynnwys ysgolion arbennig, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, sefydliadau addysg bellach, ac uned cyfeirio disgyblion (UCD). Cyfanswm nifer y dysgwyr a gyfranogodd oedd 167.

Gweithdai plant a phobl ifanc				
Lleoliad	Sector	Ardal	Gweithdai	Niferoedd
Portfield	ADY	De Orllewin	CA4	11
Portfield	ADY	De Orllewin	CA5	11
Tŷ Coch	ADY	De Ddwyrain	CA1/2	16
Tŷ Coch	ADY	De Ddwyrain	CA3/4/5	8
Penmaes	ADY	Canolbarth	CA4	6
Ysgol y Gogarth	ADY	Gogledd	Cyngor yr Ysgol CA4 / CA5	9
Ysgol Gynradd Glyncollen	Cynradd	De Orllewin	CA2	14
Llwyncrwn	Cynradd	De Ddwyrain	CA1	24
Llwyncrwn	Cynradd	De Ddwyrain	CA2	22
Ysgol y Strade	Uwchradd	De Orllewin	CA4	8
Ysgol Uwchradd Rhyl	Uwchradd	Gogledd	CA3	5
Ysgol Uwchradd Rhyl	Uwchradd	Gogledd	CA4	5
Coleg Cambria Llaneurgain	AB	Gogledd	CA5	8
Coleg Pen-y-bont	AB	De Ddwyrain	CA5	12
Canolfan Addysg Tai	Uned Cyfeirio Disgyblion	De Ddwyrain	CA2 - CA4	8
<b>Cyfanswm nifer y cyfranogwyr</b>				<b>167</b>

Cynhaliwyd saith gweithdy ar gyfer rhieni â diddordeb uniongyrchol yn y Cod ADY drafft. Roedd cyfanswm o 61 o gyfranogwyr.

<b>Grwpiau cefnogaeth rhieni</b>				
<b>Lleoliad</b>	<b>Sector</b>	<b>Ardal</b>	<b>Gweithdai</b>	<b>Niferoedd</b>
Ysgol Uwchradd Rhyl	Uwchradd	Gogledd	Grŵp cefnogaeth rhieni	7
Grŵp rhieni addysg gartref	Addysg gartref	De Orllewin	Addysgwyr gartref / rhieni	7
Coleg Pen-y-bont	AB	De Ddwyrain	Grŵp cefnogaeth rhieni	40
Ysgol y Gogarth	ADY	Gogledd	Grŵp cefnogaeth rhieni	2
Ysgol Gynradd Glyncollen	Cynradd	De Orllewin	Grŵp cefnogaeth rhieni	1
Ysgol Gynradd Llwynocrwn	Cynradd	De Ddwyrain	Grŵp cefnogaeth rhieni	4
<b>Cyfanswm nifer y cyfranogwyr</b>				<b>61</b>

## 5. Ymatebion fesul cwestiwn

### Plant a phobl ifanc

#### C1 – Ydych chi'n meddwl mai'r rhain yw'r syniadau cywir?

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn gwybod
Ysgolion Arbennig	61 (100%)	0 (0%)	0 (0%)
Ysgolion Cynradd	60 (100%)	0 (0%)	0 (0%)
Ysgolion Uwchradd	18 (100%)	0 (0%)	0 (0%)
Colegau Addysg Bellach;	20 (100%)	0 (0%)	0 (0%)
Uned Cyfeirio Disgyblion	8 (100%)	0 (0%)	0 (0%)
Cyfanswm y pleidleisiau	167	0	0
%	100	0	0

Roedd cefnogaeth unfrydol ymhlith y plant a'r bobl ifanc, gyda phawb o blaid y syniadau newydd a amlinellwyd. Roedd eu sylwadau'n cynnwys:

**"Mae'n bwysig bod rhieni ac athrawon yn cael eu cynnwys"**

**"Byddant yn fy helpu i ddysgu"**

**"Rwy'n cytuno â nhw, byddant yn eich helpu i ddatblygu ychydig yn gynt"**

**"Mae arnom i gyd angen help gwahanol sy'n gweithio i ni ac mae angen i bobl ddeall beth yw ein hanghenion ni"**

**"Mae'n dda eu bod yn cydnabod bod angen i mi gael fy anghenion wedi'u hateb, hyd yn oed os nad oes gennyf ddiagnosis"**

**"Mae'n bwysig iawn bod pobl yn gwrando arnom"**

Cymerodd dysgwyr mewn ysgolion uwchradd agwedd fwy gweithredol at y syniadau hyn gan nodi:

**"Mae angen i ni gael ein cynnwys pryd bynnag y caiff ein Cynllun ei newid"**

**"Mae angen i ni allu cael y Cynllun cynted â phosibl er mwyn i ni gael yr addysg a'r cymorth sy'n iawn i ni"**

## Rhieni

### C1 – Ydych chi'n meddwl mai'r rhain yw'r syniadau cywir?

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn gwybod
Cyfanswm y pleidleisiau	54	0	0
%	100	0	0

Roedd cefnogaeth unfrydol ymhlith y rhieni hefyd, gyda phawb o blaid y syniadau newydd a amlinellwyd.

Ystyriwyd bod addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn arbennig o anodd cael gafael arni, hyd yn oed mewn ardaloedd lle dyma'r brif iaith.

Roedd y sylwadau'n cyfeirio at bryderon ynghylch sut y byddai'n gweithio'n ymarferol:

**“Nid yw plant o reidrwydd yn gwybod beth maen nhw ei eisiau na'r hyn sydd orau iddyn nhw, ond mae'n bwysig gofyn iddynt”**

**“Mae cael yr holl broffesiynwyr i weithio gyda'i gilydd yn hunllef, yn enwedig gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer plant a phobl ifanc (CAMHS)”**

**“Mae'n bwysig bod plant yn gallu bod mewn ysgol brif ffrwd os mai dyna ble maen nhw eisiau bod ac mae angen iddyn nhw fod.”**

## Plant a phobl ifanc

C2 – Ydych chi'n hoffi ein syniadau o'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys yn y Cynllun?

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn gwybod
Ysgolion Arbennig	61 (100%)	0 (0%)	0 (0%)
Ysgolion Cynradd	60 (100%)	0 (0%)	0 (0%)
Ysgolion Uwchradd	18 (100%)	0 (0%)	0 (0%)
Colegau Addysg Bellach;	20 (100%)	0 (0%)	0 (0%)
Uned Cyfeirio Disgyblion	8 (100%)	0 (0%)	0 (0%)
Cyfanswm y pleidleisiau	167	0	0
%	100	0	0

Ymhlith y plant a'r bobl ifanc, roedd cefnogaeth unfrydol, gyda phawb o blaid y syniadau arfaethedig ar gyfer yr hyn sy'n rhaid ei gynnwys yn y CDU. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

**"Fydd pethau ddim yn cael eu colli wrth newid ysgolion"**

**"Mae'n swnio fel syniad da"**

**"Mae'n ymddangos yn amlwg bod angen cynnwys y pwyntiau hyn"**

**"Mae'n dda i athrawon ddeall eich safbwynt a'ch teimladau chi, a dylai hynny fod yn y cynllun"**

Roedd cyfranogwyr mewn ysgolion cynradd yn awyddus i frodyr a chwiorydd barhau i fynychu eu hysgol leol:

**"Byddai'n annheg iawn pe bai'ch brodyr a'ch chwiorydd yn mynd i ysgol arall ac na fydddech chi'n gallu mynd yno, dim ond am fod angen help ychwanegol arnoch chi"**

**"Byddwn yn gofidio'n arw pe bawn i'n gorfod mynd i ysgol arall"**

Gan edrych tuag at yr effaith gadarnhaol a all ddeillio o'r cynllun datblygedig, nododd cyfranogwr o'r sector AB fath wahanol o fudd, gan ddweud ar ôl ei gyflwyno:

**"Dylem gael mwy o barch a dealltwriaeth"**

## Rhieni

### C2 Ydych chi'n hoffi ein syniadau o'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys yn y Cynllun?

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn gwybod
Cyfanswm y pleidleisiau	54	0	0
%	100	0	0

Fel yn achos y plant a'r bobl ifanc, roedd cefnogaeth unfrydol hefyd ymhlith y rhieni, gyda phawb o blaid y syniadau arfaethedig o ran yr hyn sy'n rhaid ei gynnwys yn y CDU. Roedd pryderon hefyd ynghylch pa mor realistig oedd y newidiadau gydag amheuan ynghylch cyllido ac amser ar gyfer adnoddau Cydlynwyr ADY. Dywedwyd bod y Cydlynwyr AAA yn gadael ac nad oedd eu swyddi'n cael eu llenwi.

**“O ble y daw'r adnoddau i ddiwallu anghenion y cynlluniau? - os mai ysgolion sy'n gwneud y penderfyniadau hyn, mae'n bosib na fyddant yn blaenoriaethu ateb anghenion eich plentyn uwchlaw eraill - mae ysgolion yn gwneud i blant rannu cynorthwyr personol neu beidio â'u darparu o gwbl; mae hyn yn fater o bwys nid yn unig i'r plentyn ond i'r teulu cyfan”**

**“Maen nhw i gyd yn syniadau da iawn, ond o ble daw'r adnoddau ar eu cyfer? - dydw i ddim yn gallu gweld sut y bydd unrhyw agwedd o hyn yn gweithio heb fwy o arian a staff.”**

**“Mae Cydlynwyr ADY yn gadael ar draws ei gilydd, ac nid yw eu swyddi'n cael eu llenwi, felly sut y gall hyn weithio?”**

**“Mae'n anodd iawn cael pobl yn yr un ystafell i ddatblygu'r cynllun, felly beth sy'n mynd i newid hynny?”**

**“Beth yw rôl ESTYN yn hyn o beth, pa hyfforddiant fydd ar gael ar gyfer athrawon a Chynorthwyr Addysgu?”**

**“Sut y bydd gwybodaeth ar gael i ysgolion a staff ysgol”**

Tynnwyd sylw at ddiffyg cyfathrebu da hefyd:

**“Mae'r symud yn ôl ac ymlaen parhaus rhwng iechyd, ysgol, awdurdod lleol, CAMHS a.y.b. yn peri oedi wrth i blant gael cymorth; mae angen ailadrodd gwybodaeth yn aml; nid yw'r ffordd y cofnodir y wybodaeth yn trosglwyddo o un sefydliad i'r llall. Mae pethau'n cael eu colli.”**

## Plant a phobl ifanc

### C3 – Oes gennych chi unrhyw syniadau ynglŷn â beth arall y dylid ei gynnwys yn y Cynllun?

Roedd yr ymatebion gan blant a phobl ifanc i'r cwestiwn hwn yn dda iawn, gan adlewyrchu eu harbenigedd ar eu bywyd eu hunain, gan felly eu galluogi i gynhyrchu rhestr llawer mwy cynhwysfawr na'r hyn a ddarparwyd gan y rhieni.

**“Fy mod i'n hoffi cerdded”**

**“Fy mod i'n hoffi ysgrifennu”**

**“Fy mod i'n hoffi darllen”**

**“Fy hoff bwnc**

**“Gwersi dwi ddim yn eu hoffi”**

**“Ystafelloedd dosbarth nad ydw i'n hoffi mynd iddynt”**

**“Beth dwi'n hoffi ei fwyta a'i yfed”**

**“Y feddyginiaeth rwy'n ei chymryd ac os yw'n newid”**

**“Pethau sy'n gwneud i mi deimlo dan bwysedd / yn ddig”**

**“Rwy'n mwynhau coginio”**

**“Fy hoff fath o chwaraeon”**

**“Fy mod i'n gwneud gwobr Dug Caeredin”**

**“Fy hobiau”**

**“Gwobrau sydd gen i”**

**“Fy nhîm pêl-droed”**

**“Pwy yw fy ffrindiau”**

**“Pwy dwi'n hoffi eistedd wrth eu hymyl”**

**“Fy hoff wers”**

**“Pa gymorth ychwanegol sydd ei angen arna i”**

**“Gallu eistedd gyda'r person sy'n rhoi cymorth ychwanegol i chi”**

**“Helpu i atal pobl rhag cael eu bwlio”**

**“Dylai'r cynllun fod â lle neu rywbeth i'w wneud rydych chi'n ei hoffi os ydych chi'n teimlo'n drist, fel bod yr athro'n gwybod beth i'w wneud”**

**“Weithiau rwy'n credu gall (y cynllun) ddatblygu fel pe bai'r byd yn ei ddatblygu”**

**“Peidio â fy ngosod mewn dosbarth gyda phobl sy'n fy nghyffroi oherwydd bod hynny'n creu tensiwn”**

**“Mae angen i bob plentyn wybod pwy yw eu swyddog bugeiliol”**

**“Pwy yw fy ffrindiau a phwy dwi'n hoffi eistedd gyda nhw”**

**“Os nad ydw i wedi bod yn teimlo'n dda”**

**“Fy mod i'n hoffi chwarae rygbi”**

**“Ynglŷn â'm brodyr a'm chwiorydd”**

**“Pwy rydw i'n mynd ato os oes gen i broblem, fy hoff berson”**

**“Pwy sy'n bwysig i mi”**

**“Beth rydw i eisïau ei wneud pan fyddaf yn gadael yr ysgol”**

**“Gall anghenion cymorth newid”**

**“Bod â'r un person i ymddiried ynddo y gallwch chi ei gadw drwy'r ysgol a'r coleg”**

**“Os ydw i'n symud tŷ”**

**“Os ydw i'n cweryla â fy ffrindiau”**

**“Eistedd gyda fy ffrindiau”**

**“Fy hoff fwyd”**

**“Sut i reoli fy arian”**

**“Sut y gallaf gael fflat”**

**“Problemau yn y teulu”**

**“Os ydych chi'n dioddef o iselder”**

**“Sut y gallaf fynd i'r coleg yn Lloegr”**

**“Sut y gallaf gael help i gael swydd”**

**“Eich holl berthnasoedd”**

**“Sut rydyn ni'n dysgu orau”**

**“Materion teithio. Mae'r newid o ysgol i goleg yn anodd iawn a gall teithio fod yn broblem wirioneddol”**

**“Cael paned o goffi/te neu siocled poeth a byrbrydau i ddechrau'r diwrnod”**

Mewn grŵp cymysg (gydag ADY / heb ADY), cafwyd nifer o sylwadau adeiladol ynglŷn â mynediad i'w hathro pan fo angen i'w hathro dreulio llawer o amser gyda dysgwyr ag ADY. Ystyriodd y dysgwyr hyn eu hymdrechion eu hunain i ddysgu, gan ddweud eu bod eisoes yn colli allan ar amser athrawon ac yn ofni y byddai newidiadau yn y dyfodol yn gwneud y sefyllfa'n waeth:

**“Y broblem yw, os oes angen help arnoch chi yn y dosbarth, mae'r athro fel arfer gyda'r person sydd angen llawer o help, felly dydych chi byth yn cael unrhyw gymorth o gwbl. Dydw i ddim yn dweud mai eu bai nhw yw hynny, ond mae'n dal i fod yn annheg”**

**“Rwy'n gwybod bod rhai pobl angen cymorth ychwanegol, finnau hefyd weithiau, ond dydw i byth yn cael help yn y dosbarth oherwydd hyn; rwy'n gwybod nad eu bai nhw yw hyn, ond dwi hefyd eisiau cymorth”**

**“Rydyn ni angen mwy o athrawon, does dim digon ohonyn nhw”**

**“Mae gennym 28 yn ein dosbarth, ac os yw'r athro gyda rhywun sydd angen help ychwanegol, mae angen athro arall arnom sy'n gwybod yr un pethau er mwyn i chi fynd atyn nhw”**

**“Dylai dosbarthiadau fod yn llai” meddai plentyn arall “mae arnom angen mwy o athrawon yn y dosbarth mawr”**

Wrth ystyried yr amser y gall ei gymryd i ffurfio cynllun a'i roi ar waith, dywedodd un dysgwr mewn ysgol gynradd, ac roedd pawb yn gytûn yn hyn o beth:

**“Dylai fod yna un cynllun mawr ar gyfer pobl ag anghenion dysgu gyda gwybodaeth am bob angen, felly gallwch fynd i'r dudalen a gweld pa help sydd ei angen arnoch chi”... “Ie, cynllun cynhwysfawr”... “bydd hyn yn gweithio pan fyddwch chi'n aros am eich cynllun ”**

## Rhieni

### C3 – Oes gennych chi unrhyw syniadau ynglŷn â beth arall y dylid ei gynnwys yn y Cynllun?

Nid oedd yr ymatebion gan rieni mor gynhwysfawr â'r ymatebion gan blant a phobl ifanc. Roedd llawer o bryder ynghylch sut y byddai'r system newydd yn cael ei gorfodi, o ystyried nad yw'r system bresennol yn cael ei gweithredu'n effeithiol.

Defnyddiodd nifer o rieni'r cyfle hwn i wneud sylwadau neu leisio pryderon eraill nad oeddent yn uniongyrchol gysylltiedig â'r cwestiwn hwn:

**“Dylid gwrandao ar rieni a'u cynnwys mewn penderfyniadau”**

**“Dylai fod cysondeb o ran sut mae pethau'n cael eu cofnodi a dylid rhannu gwybodaeth yn rhwydd ac yn rheolaidd.”**

**“Byddai angen diweddarau'r cynllun yn rheolaidd, fel arall byddai'n amhosib sicrhau bod yr adran am yr hyn sy'n digwydd yn cael ei chadw'n gyfoes”**

**“Dylai'r cynllun fod ar-lein gyda mynediad â chyfrinair i rieni / plant / pobl ifanc i ddiweddarau'r adran ‘beth sy'n digwydd’ yn arbennig”**

**“Dylai athrawon cyflenwi gael yr wybodaeth ddiweddaraf hefyd, felly dylai fod nodyn i dynnu sylw at y materion hyn ar gofrestrau ar-lein, fel mae rhai ysgolion yn ei wneud eisoes.”**

**“Gall GDPR fod yn broblem, ond dylai materion allweddol fod yn hygyrch i athrawon cyflenwi.”**

**“Mae awdurdodau lleol yn brin o arian ac maent yn defnyddio hyn fel rheswm dros beidio â chyflawni eu cyfrifoldebau.”**

**“Mae goblygiadau hirdymor diwallu anghenion plant yn cael eu cydnabod o'r diwedd o ran eu deilliannau a'u cyfleoedd.”**



## Plant a phobl ifanc

C4 – Beth ydych chi'n ei feddwl ynglŷn â faint o amser fydd gan ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol i wneud Cynlluniau?

Lleoliad	Cytuno	Anghytuno Rhy hir	Anghytuno Rhy fyr	Ddim yn gwybod
Ysgolion Arbennig	8 (13%)	44 (72%)	6 (10%)	3 (5%)
Ysgolion Cynradd	10 (17%)	41 (68%)	2 (3%)	7 (12%)
Ysgolion Uwchradd	0 (0%)	17 (94%)	1 (6%)	0 (0%)
Colegau Addysg Bellach	3 (15%)	11 (55%)	4 (20%)	2 (10%)
Uned Cyfeirio Disgyblion	1 (13%)	4 (50%)	3 (38%)	0 (0%)
Cyfanswm y pleidleisiau	22	117	16	12
%	13	70	10	7

Ar ôl llawer o drafodaeth ynglŷn â'r berthynas rhwng ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol a sut y gwneir cynlluniau, y consensws oedd bod 35 diwrnod ysgol yn llawer rhy hir i ysgolion, a bod 12 wythnos yn rhy hir i awdurdodau lleol. Dim ond 13% o'r pleidleiswyr oedd yn gefnogol i'r cynnig, yr ymateb isaf gan ddysgwyr o'r 15 cwestiwn. Dyma rai o'r sylwadau cyffredinol a gafwyd:

**“Dylid ei wneud ar unwaith”**

**“Ni ddylai fod angen i chi aros am hyd yn oed diwrnod”**

**“Mae aros yn gwneud i bobl boeni, dylid gwneud hyn gynted â phosib”**

**“Os yw'n mynd i fod yn gynllun mawr neu'n cymryd tipyn o amser i'w wneud, dylai'r prif gymorth amlwg ddigwydd ar unwaith wrth i ni aros i'r cynllun gael ei ysgrifennu” - cytunodd pawb â hynny**

**“Gwnewch gynllun bach yn gyntaf”**

**“Gallai 35 diwrnod fod yn dymor cyfan wedi'i golli, sy'n llawer rhy hir i aros”**

**“Mae'n rhy hir, bydd pobl yn anobeithio”**

**“Os oes gennych chi anawsterau dysgu, nid yw athrawon yn gwybod beth i'w wneud oherwydd bod y gwaith yn gosod cryn straen arnyn nhw, felly dylid gwneud y cynllun mewn pythefnos”**

**“Mae 12 diwrnod yn ddigon gan weithio gyda'r person”**

**“Mae'n dymor, gallai fod yn bwnc cyfan wedi'i golli ac mae hynny'n annheg iawn”**

Er bod pob carfan o ymatebwyr yn gwrthwynebu'r cynnig hwn, ysgolion uwchradd oedd y rhai mwyaf gwrthwynebus; nid oedd yr un o'u cyfranogwyr o blaid y cynnig. Roedd eu sylwadau'n cynnwys:

**“Mae 12 wythnos yn rhy hir, mae hynny'n chwerthinllyd”**

**“Mae 12 wythnos yn rhoi amser i awdurdodau lleol ohirio a pheidio â mynd i'r afael â materion allweddol; ni ddylai gymryd llawer mwy o amser nag ysgolion, gan y bydd pawb arall yn rhoi gwybodaeth iddynt”**

Meddai un cyfranogwr o AB, gan siarad o brofiad:

**“Roeddwn i'n gynrychiolydd myfyrwyr, felly dwi'n gwybod sut mae pethau'n gweithio a faint o amser mae'n ei gymryd i gael pobl at ei gilydd a chael gwybodaeth i wneud cynllun”**

Dyma rai o'r atebion ar gyfer pa mor hir y dylai gymryd:

**"Ddim yn hir iawn", "Diwrnod", "Diwrnod a hanner", "Awr" a "Wythnos"**

**“Nid yw'n deg bod gan awdurdodau lleol gymaint mwy o amser nag ysgolion”**

**“Ni ddylent gymryd mwy nag wythnos i weld pwy sydd angen cymorth, ac yna treulio gweddill yr amser yn gwneud y cynllun”**

**“Efallai y bydd 35 diwrnod yn ddigon i ddechrau, ond yna dylai fynd yn gyflymach yn enwedig yn yr ysgol uwchradd a'r coleg oherwydd dylai anghenion fod wedi'u dynodi yn yr Ysgol Gynradd”**

## Rhieni

**C4 – Beth ydych chi'n ei feddwl ynglŷn â faint o amser fydd gan ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol i wneud Cynlluniau?**

Lleoliad	Cytuno	Anghytuno Rhy hir	Anghytuno Rhy fyr	Ddim yn gwybod
Cyfanswm y pleidleisiau	11	41	9	0
%	18	67	15	0

Roedd y rhan fwyaf o'r rhieni'n wrthwynebus i'r cynigion, ond ychydig yn fwy cefnogol (18%) na'r dysgwyr (13%). Yn ogystal â meddwl bod y cynnig yn rhoi gormod o amser i ysgolion, Awdurdodau Lleol a cholegau, roeddent hefyd o'r farn nad oedd digon o adnoddau i ganiatáu i'r cynigion gael eu cyflawni.

**“Mae'n anodd gweld sut y bydd pethau'n gwella heb staff ac adnoddau ychwanegol i gynorthwyo hyn”**

**“Mae'n bosib rhagweld problemau mawr i ysgolion cynradd lle mae'r materion hyn yn debygol o gael eu dynodi gyntaf”**

**“Mae'r system eisoes yn methu gyda lefel bresennol y galw; sut mae codi disgwyliadau a galw ar y system yn mynd i wneud pethau'n well?”**

**“Nid yw'r GIG yn gallu ymdopi â'r galw ar hyn o bryd, ni fydd gobaith ganddynt gyda'r galwadau ychwanegol a wneir arnynt.”**

**“Bydd y newidiadau yn golygu mwy o lefelau o reolaeth a strwythur sy'n mynd i wneud i'r system fethu; ni fydd y cysyniad yn cyd-fynd â'r realiti”**

**“Mae'n dda bod cysondeb yn y ffaith bod y cynllun yn dilyn y plentyn”**

**“Bydd gormod o blant yn cael eu rhoi yn y system; bydd hynny'n gwneud iddi fethu”**

## Plant a phobl ifanc

C5 – Beth ydych chi'n ei feddwl ynglŷn â phobl yn cael 6 wythnos i ateb cwestiwn gan awdurdod lleol am yr help sydd ei angen arnoch?

Lleoliad	Cytuno	Anghytuno Rhy hir	Anghytuno Rhy fyr	Ddim yn gwybod
Ysgolion Arbennig	15 (25%)	39 (64%)	5 (8%)	2 (3%)
Ysgolion Cynradd	18 (30%)	29 (48%)	6 (10%)	7 (12%)
Ysgolion Uwchradd	5 (28%)	12 (67%)	1 (6%)	0 (0%)
Colegau Addysg Bellach	0 (0%)	16 (80%)	3 (15%)	1 (5%)
Uned Cyfeirio Disgyblion	8 (100%)	0 (0%)	0 (0%)	0 (0%)
Cyfanswm y pleidleisiau	46	96	15	10
%	28	57	9	6

Gan ddatblygu'r trafodaethau a'r hyn a ddysgwyd o C4, dim ond 28% o blant a phobl ifanc a bleidleisiodd o blaid y cynnig, gyda 66% yn pleidleisio yn erbyn. O'r 66% hynny, roedd 57% o'r farn bod cyfnod o 6 wythnos yn rhy hir. Dyma rai o'r sylwadau:

**"gall gymryd ychydig o amser oherwydd mae pobl yn gallu bod yn araf"**

**"6 wythnos i ateb cwestiwn ?!"**

**"Pa mor hir yw'r cwestiwn?"**

**"Dim ond ychydig oriau sydd gennym ni mewn arholiad i ateb sawl cwestiwn - pam mae angen 6 wythnos arnyn nhw?"**

**"Mae hynny'n fis a hanner!"**

**"Fe allen nhw ddweud bod ganddyn nhw 6 wythnos, yna aros tan y funud olaf cyn ei wneud"**

**"Pe baent yn ymateb yn gyflymach, yna gellid gwneud y cynllun yn gyflymach"**

**"Dylent ei wneud yn gyflymach fel y gallaf gael yr help sydd ei angen arnaf yn gyflymach"**

Er bod y pleidleisiau o ysgolion arbennig, cynradd ac uwchradd yn adlewyrchu rhywfaint o gefnogaeth i'r cynnig, nid oedd yr un o'r ymatebwyr o golegau AB o blaid; serch hynny, roedd pawb a ymatebodd o'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn gwbl gefnogol i'r cynnig.

## Rhieni

**C5 – Beth ydych chi'n ei feddwl ynglŷn â phobl yn cael 6 wythnos i ateb cwestiwn gan awdurdod lleol am yr help sydd ei angen arnoch?**

Lleoliad	Cytuno	Anghytuno Rhy hir	Anghytuno Rhy fyr	Ddim yn gwybod
Cyfanswm y pleidleisiau	25	17	19	0
%	41	28	31	0

Yn wahanol i ymateb y dysgwyr i'r cwestiwn hwn, rhannwyd y rhieni gyda mwyafrif llai yn gwrthwynebu'r cynnig.

**“Os yw'r plant eisoes yn hysbys i wasanaeth, pam mae'n cymryd cymaint o amser i gael y wybodaeth?”**

Yn achos yr ymatebwyr nad oeddent o blaid y cynnig, roedd mwy na'u hanner nhw'n teimlo bod angen mwy o amser ac adnoddau nid llai, hynny'n seiliedig i raddau helaeth ar eu profiad a'u sinigiaeth.

**“Nid oes digon o adnoddau i ddelio â'r galw ar hyn o bryd ac ni chedwir at y rheolau presennol; sut fydd hyn yn well? Rydych chi'n gofyn iddynt wneud mwy heb unrhyw arian na staff ychwanegol”**

**“Mae hyn i gyd yn swnio'n wych ond mor afrealistig, ac rwy'n credu nad oes modd ei gyflawni”**

## Plant a phobl ifanc

**C6 – Beth ydych chi'n feddwl ynglŷn â'r gwasanaethau iechyd yn cael 6 wythnos i ddweud wrth bobl sut y gallant eich helpu yn yr ysgol?**

Lleoliad	Cytuno	Anghytuno Rhy hir	Anghytuno Rhy fyr	Ddim yn gwybod
Ysgolion Arbennig	15 (25%)	39 (64%)	5 (8%)	2 (3%)
Ysgolion Cynradd	18 (30%)	29 (48%)	6 (10%)	7 (12%)
Ysgolion Uwchradd	4 (22%)	13 (72%)	1 (6%)	0 (0%)
Colegau Addysg Bellach	0 (0%)	16 (80%)	3 (15%)	1 (5%)
Uned Cyfeirio Disgyblion	8 (100%)	0 (0%)	0 (0%)	0 (0%)
Cyfanswm y pleidleisiau	45	97	15	10
%	27	58	9	6

Wrth ddatblygu'r trafodaethau a'r hyn a ddysgwyd o C4 a C5, pleidleisiodd ymatebwyr yn erbyn gosodiad y cwestiwn gyda phatrwm pleidleisio a oedd bron yr un fath â chwestiwn 5. Roedd 58% o'r ymatebwyr yn ystyried bod caniatáu chwe wythnos i'r gwasanaethau iechyd i ateb cwestiynau yn annerbyniol, gan gredu y dylent allu cyflawni'r dasg honno yn llawer cyflymach na hynny.

**“Pe baent yn ymateb yn gyflymach, yna gellid gwneud y cynllun yn gyflymach”**

**“Nid yw'n deg ar yr awdurdod lleol os ydynt yn cymryd gormod o amser, ac ni fyddaf yn cael unrhyw help pan fyddaf ei angen”**

**“Gall fod yn broblem gweithio allan beth i'w wneud os oes gan rywun anghenion iechyd cymhleth”**

**“Pam mae angen amser mor hir arnynt?”**

Nid oedd pawb yn cytuno:

**“Gall fod yn broblem gweithio allan beth i'w wneud os oes gan rywun anghenion iechyd cymhleth”**

## Rhieni

**C6 – Beth ydych chi'n feddwl ynglŷn â'r gwasanaethau iechyd yn cael 6 wythnos i ddweud wrth bobl sut y gallant eich helpu yn yr ysgol?**

Lleoliad	Cytuno	Anghytuno Rhy hir	Anghytuno Rhy fyr	Ddim yn gwybod
Cyfanswm y pleidleisiau	31	19	11	0
%	51	31	18	0

Yn wahanol i ymateb y dysgwyr i'r cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif o blaid, gyda'r cynnig yn derbyn cefnogaeth 51% o'r rheiny a ymatebodd. Yn debyg i'r ymatebion i gwestiynau eraill, roedd llawer o rieni'n pryderu am y diffyg adnoddau tybiedig:

**“Mae gwasanaethau iechyd eisoes dan bwysedd aruthrol ac mae'n amhosibl delio â nhw, gallwch aros 12-18 mis am ddim ond apwyntiad cychwynnol; sut mae hyn yn effeithio ar y broses asesu a datblygiad y cynllun?”**

Nododd un rhiant, gyda chefnogaeth gan eraill, faterion sefydliadol:

**“Nid yw'r ysgol, y gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaethau iechyd yn siarad â'i gilydd, ac maen nhw'n beirniadu ac yn beio ei gilydd; sut fydd gosod terfyn amser yn gwella'r berthynas hon?”**

Er bod 51% yn cefnogi'r cynnig, roedd 49% yn ei wrthwynebu:

**“Unwaith eto... os yw plentyn yn hysbys i wasanaethau, yna dylai gwybodaeth fod ar gael yn rhwydd ac yn gyflym”**

## Plant a phobl ifanc

**C7 – Beth ydych chi'n ei feddwl ynglŷn ag ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol yn cael 7 wythnos i adolygu'r Cynlluniau y maent yn eu gwneud?**

Lleoliad	Cytuno	Anghytuno Rhy hir	Anghytuno Rhy fyr	Ddim yn gwybod
Ysgolion Arbennig	15 (25%)	39 (64%)	1 (2%)	6 (10%)
Ysgolion Cynradd	7 (12%)	41 (68%)	8 (13%)	4 (7%)
Ysgolion Uwchradd	0 (0%)	18 (100%)	0 (0%)	0 (0%)
Colegau Addysg Bellach	8 (40%)	12 (60%)	0 (0%)	0 (0%)
Uned Cyfeirio Disgyblion	0 (0%)	8 (100%)	0 (0%)	0 (0%)
Cyfanswm y pleidleisiau	30	118	9	10
%	18	71	5	6

Dim ond 18% o'r ymatebwyr oedd o blaid y cynnig hwn, gyda'r rhan fwyaf yn methu deall pam y byddai adolygiad yn cymryd cymaint o amser.

Dim ond 7 o blith 60 o bleidleiswyr o Ysgolion Cynradd a gefnogodd y cynnig, gyda'r dysgwyr hyn yn nodi:

**"Does ond angen iddyn nhw ei ddarllen"**

**"Maen nhw eisoes wedi cymryd 7 wythnos i wneud y cynllun; pam maen nhw angen 7 wythnos arall i'w ddarllen eto?"**

**"Dydyn nhw ddim yn rhoi pobl ifanc yn gyntaf"**

Nid oedd pob un o'r ymatebwyr o ysgolion uwchradd a'r uned cyfeirio disgyblion o blaid y cynnig, gyda rhai yn nodi:

**"Mae angen addasu'r cynlluniau'n rheolaidd, felly sut y gall hynny ddigwydd os yw'n cymryd cymaint o amser i'w hysgrifennu?"**

**"Er mwyn i'r Cynlluniau weithio i ni, mae angen eu diweddarau, felly mae 7 wythnos yn llawer rhy hir"**

**"Os oes angen i chi newid y Cynllun, dylai fod gennych yr hawl i'w gael wedi'i newid ar unrhyw adeg"**

**"Mae ganddyn nhw'r cynllun yn barod"**

Cafwyd rhywfaint o gefnogaeth i'r cynnig:

**"Mae'r amser yn swnio'n iawn, gan ei fod yn anodd"**

Ar ôl y pleidleisiau ffurfiol a llawer o drafodaeth, roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr o'r farn bod 4 wythnos yn ddigon hir, ond nid oedd pob dysgwr yn cytuno:

**"Ni ddylai gymryd mwy nag wythnos neu ddwy"**

## Rhieni

**C7 – Beth ydych chi'n ei feddwl ynglŷn ag ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol yn cael 7 wythnos i adolygu'r Cynlluniau y maent yn eu gwneud?**

Lleoliad	Cytuno	Anghytuno Rhy hir	Anghytuno Rhy fyr	Ddim yn gwybod
Cyfanswm y pleidleisiau	23	21	13	4
%	38	34	21	7

Dim ond 38% o'r rhieni a ymatebodd oedd yn cefnogi'r cynnig. Dyma rai o sylwadau'r rhieni:

**“Os oes ganddynt yr holl wybodaeth yn barod o ddatblygu'r cynllun, yna pam mae'r broses adolygu yn cymryd cymaint o amser?”**

**“Mae gwasanaethau ieched eisoes dan bwysedd aruthrol ac mae'n amhosibl delio â nhw, gallwch aros 12-18 mis am ddim ond apwyntiad cychwynnol; sut mae hyn yn effeithio ar y broses asesu, unrhyw angen am adolygu'r cynigion a datblygiad y cynllun?”**

**“A yw hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt gael mwy o wybodaeth fel sail i'r adolygiad? Beth os nad oes tystiolaeth arall ar gael i gefnogi'ch dymuniadau o ran anghenion eich plentyn?”**

**“Pam na all darparwyr cludiant gysylltu â'r broses i roi cymorth i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd?”**



## Plant a phobl ifanc

C8 – Beth ydych chi'n ei feddwl ynglŷn ag awdurdodau lleol yn cael 7 wythnos i adolygu'r Cynlluniau a wnaed gan ysgolion?

Lleoliad	Cytuno	Anghytuno Rhy hir	Anghytuno Rhy fyr	Ddim yn gwybod
Ysgolion Arbennig	15 (24%)	39 (64%)	1 (2%)	6 10(%)
Ysgolion Cynradd	4 (7%)	42 (70%)	5 (8%)	9 (15%)
Ysgolion Uwchradd	0 (0%)	18 (100%)	0 (0%)	0 (0%)
Colegau Addysg Bellach	8 (40%)	12 (60%)	0 (0%)	0 (0%)
Uned Cyfeirio Disgyblion	2 (25%)	6 (75%)	0 (0%)	0 (0%)
Cyfanswm y pleidleisiau	29	117	6	15
%	17	70	4	9

Gan ddatblygu'r trafodaethau a'r hyn a ddysgwyd o'r cwestiynau blaenorol, pleidleisiodd yr ymatebwyr hyn yn erbyn gosodiad y cwestiwn gyda 70% yn methu â deall pam y byddai adolygiad yn cymryd cymaint o amser.

Nid oedd yr un o'r ymatebwyr o'r ysgolion uwchradd o blaid y cynnig hwn, gydag un yn nodi:

**"Fel y dywedais i, mae 7 wythnos yn llawer rhy hir - mae bron yn 2 fis"**

Roedd ymatebwyr o golegau AB wedi'u rhannu'n fwy cyfartal, gyda'r sylwadau isod yn adlewyrchu eu gwahanol safbwyntiau:

**"Pam bod rhaid i bopeth gymryd gormod o amser"**

**"Mae'n swnio'n gywir; mae angen iddyn nhw sicrhau bod ganddynt yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt - rwyf am iddynt gael fy nghynllun yn iawn"**

## Rhieni

C8 – Beth ydych chi'n ei feddwl ynglŷn ag awdurdodau lleol yn cael 7 wythnos i adolygu'r Cynlluniau a wnaed gan ysgolion?

Lleoliad	Cytuno	Anghytuno Rhy hir	Anghytuno Rhy fyr	Ddim yn gwybod
Cyfanswm y pleidleisiau	30	21	10	0
%	49	34	16	0

Yn wahanol i'r dysgwyr, a wrthododd y cynnig hwn â mwyafrif sylweddol, roedd bron i hanner (49%) y rhieni o'i blaid. Gwrthododd 51% y cynnig gyda 34% yn meddwl bod y cyfnod yn rhy hir:

**"Os yw'r wybodaeth a ddefnyddiwyd gan yr ysgol i ddatblygu'r cynllun gan yr awdurdod lleol eisoes, yna pam mae angen i'r broses adolygu gymryd cymaint o amser?"**

## Plant a phobl ifanc

C9 – Beth ydych chi'n ei feddwl ynglŷn â'n syniadau am yr hyn y dylai awdurdodau lleol ei wneud i helpu atal dadleuon a'u datrys?

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn gwybod
Ysgolion Arbennig	61 (100%)	0 (0%)	0 (0%)
Ysgolion Cynradd	60 (100%)	0 (0%)	0 (0%)
Ysgolion Uwchradd	18 (100%)	0 (0%)	0 (0%)
Colegau Addysg Bellach	20 (100%)	0 (0%)	0 (0%)
Uned Cyfeirio Disgyblion	8 (100%)	0 (0%)	0 (0%)
Cyfanswm y pleidleisiau	167	0	0
%	100	0	0

Cafodd y syniadau o fewn y cwestiwn hwn gefnogaeth gyffredinol, a phan ofynnwyd pwy arall a allai helpu i atal dadleuon a beth arall y gallai'r awdurdod lleol ei wneud, roedd gan gyfranogwyr amryw o syniadau creadigol, gydag ymatebwyr o Ysgolion Arbennig yn nodi:

**“Dwi angen rhywun i fy helpu i ddeall y wybodaeth sydd ar gael hefyd”**

**“Rhowch bethau ar hysbysfyrdau”**

**“Cartwnau”**

**“Defnyddiwch dechnoleg llais Alexa/Siri”**

Pan ofynnwyd pwy arall a allai helpu i atal dadleuon, roedd gan ymatebwyr o Ysgolion Cynradd y canlynol i'w ddweud:

**“Mae'n dda mynd i siarad â'ch mam-gu”**

**“A'ch meddyg teulu”**

**“Gwnewch yn siŵr bod eich teulu'n gwybod amdano”**

**“Gwnewch yn siŵr eu bod yn gwybod bod angen mwy o help ar rai pobl”**

**“Dylent fod yn gwybod sut i'ch tawelu i lawr”**

**“Rhowch wybodaeth ar ein gwefan (ysgol)”**

Wrth ystyried materion cyfathrebu, meddai dysgwyr o ysgolion uwchradd:

**“Dwi'n teimlo'n bryderus, a dydw i ddim yn gallu siarad ar y ffôn; hoffwn allu cael sgwrs fyw pe bai gen i broblem”**

**“Efallai y byddaf am ysgrifennu llythyr neu e-bost at rywun yn hytrach na gorfod siarad â dieithryn”**

**“Beth am gael gwasanaeth negeseua cyfredol i ni ei ddefnyddio fel y gallwn gael ymateb ar unwaith a'n bod yn gwybod fod rhywun yn gwrando”**

Roedd y cysyniad o sgwrs fyw yn boblogaidd iawn, ac roedd yr hyn a ddywedodd un dysgwr mewn AB yn enghraifft o hynny:

**“Hoffwn gael llinell gymorth ffôn neu Sgwrs Fyw ar gyfer fy nghwestiynau”**

Arweiniodd ansicrwydd ynglŷn â pha ymddygiadau oedd yn briodol at un ymatebydd o UCD yn datgan:

**“Gwnewch yn siŵr bod pobl yn gwybod beth yw'r peth iawn i'w wneud”**

## Rhieni

**C9 – Beth ydych chi'n ei feddwl ynglŷn â'n syniadau am yr hyn y dylai awdurdodau lleol ei wneud i helpu atal dadleuon a'u datrys?**

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn gwybod
Cyfanswm y pleidleisiau	54	0	7
%	89	0	11

Derbyniodd y syniadau o fewn gosodiad y cwestiwn hwn gefnogaeth gyffredinol gan y rhai a bleidleisiodd. Pan ofynnwyd pwy arall a allai helpu i atal dadleuon, roedd gan ymatebwyr y canlynol i'w ddweud:

**“Dylent wneud mwy i gynnwys rhieni yn y broses, a darparu cefnogaeth i rieni sy'n ei chael yn anodd ymdopi â'r broses.”**

## Plant a phobl ifanc

**C10 – Beth ydych chi'n ei feddwl ynglŷn â'n syniadau am yr hyn y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei wneud i sicrhau eich bod yn gwybod ble i ddod o hyd i eiriolwr?**

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn gwybod
Ysgolion Arbennig	61 (100%)	0 (0%)	0 (0%)
Ysgolion Cynradd	60 (100%)	0 (0%)	0 (0%)
Ysgolion Uwchradd	18 (100%)	0 (0%)	0 (0%)
Colegau Addysg Bellach	20 (100%)	0 (0%)	0 (0%)
Uned Cyfeirio Disgyblion	8 (100%)	0 (0%)	0 (0%)
Cyfanswm y pleidleisiau	167	0	0
%	100	0	0

Derbyniodd y syniadau o fewn y cwestiwn hwn gefnogaeth unfrydol gan y rhai a bleidleisiodd. Er bod y mwyafrif o ymatebwyr yn deall y cysyniad o eiriolwr, nid oeddent yn gyfarwydd â'r gair ei hun. Disgrifiodd nifer o ymatebwyr o ysgolion cynradd sefyllfa eiriolaeth:

**“Mae fy nain yn fy helpu”**

**“Rwy'n arwyddo (BSL) ar ran mam a dad”**

Dyweddodd dau ymatebydd o'r UCD bod ganddynt eiriolwr eisoes. Pan ofynnwyd iddynt beth arall y gellid ei wneud i sicrhau mynediad at eiriolwr, dywedodd y cyfranogwyr:

**“Gofynnwch i'r cwmnïau mawr i roi hysbysebion ymlaen”**

**“Ar yr hysbysfyrdau”**

**“Linell gymorth eiriolaeth”**

**"Hysbysebion ar Instagram, WhatsApp, Facebook, popups, hysbysebion ar fideos"**

**"Mae'n swnio'n eithaf amlwg - rydym yn siarad Cymraeg, felly mae angen hynny arnom"**

**"Facebook"**

**Dywedodd grŵp CA2 nad oeddent ar Facebook ond roeddent i gyd yn defnyddio Instagram, Snapchat & WhatsApp**

**"A allem gael bywgraffiad ar-lein ar gyfer eiriolwyr, fel y gallaf ddewis un rwy'n ei hoffi neu sy'n meddwl fel fi? A allem gael Tinder ar gyfer dod o hyd i eiriolwyr?"**

**"Papur newydd lleol"**

**"Byrddau ysgol"**

**"Gwefan eiriolwyr"**

**"Gwefan yr ysgol, mae'n wael"**

**"Defnyddiwch y newyddion teledu i ddweud wrth bobl"**

**"Mewn ffenestri siopau yn y dref"**

**"Mae gennym wefan ysgol; gall fynd yno"**

**"Mae rhieni yn mynd ar wefannau ysgolion, felly dwi'n cytuno"**

Roedd nifer o ymatebwyr yn gallu gweld ar unwaith sut y gallent elwa o fod ag eiriolwr:

**"A allaf siarad ag eiriolwr nawr?"**

**"Gyda phwy ddylwn i siarad?"**

**"Ni ddylai fod rhaid i mi aros i gael y cod er mwyn dod i mewn am sgwrs"**

**"Pam nad ydym yn gwybod pwy sy'n eiriolwr?"**

**"A ddylem ni fod ag un nawr?"**

## Rhieni

**C10 – Beth ydych chi'n ei feddwl ynglŷn â'n syniadau am yr hyn y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei wneud i sicrhau eich bod yn gwybod ble i ddod o hyd i eiriolwr?**

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn gwybod
Cyfanswm y pleidleisiau	56	5	0
%	92	8	0

Roedd 92% o'r rhieni a ymatebodd yn gefnogol i'r cynnig hwn. Mewn trafodaeth, dywedodd y cyfranogwyr:

**"Mae bron yn amhosibl cael gwybod pwy sy'n darparu eiriolaeth, heb son am wybod os oes unrhyw werth arno"**

**"Mae'n bwysig iawn bod rhieni'n gwybod y gallant gael gafael ar eiriolwr i'w cefnogi hefyd"**

## Plant a phobl ifanc

C11 – Beth ydych chi'n ei feddwl ynglŷn â sut y bydd yn gweithio pan fyddwch yn gofyn i farnwr benderfynu pwy sy'n iawn?

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn gwybod
Ysgolion Arbennig	61 (100%)	0 (0%)	0 (0%)
Ysgolion Cynradd	60 (100%)	0 (0%)	0 (0%)
Ysgolion Uwchradd	18 (100%)	0 (0%)	0 (0%)
Colegau Addysg Bellach	20 (100%)	0 (0%)	0 (0%)
Uned Cyfeirio Disgyblion	8 (100%)	0 (0%)	0 (0%)
Cyfanswm y pleidleisiau	167	0	0
%	100	0	0

Roedd pawb yn barod iawn i gytuno. Yn gyffredinol, roedd gan y cyfranogwyr ddealltwriaeth dda iawn o'r hyn y mae barnwr yn ei wneud, gyda'r rhan fwyaf yn cyfeirio at y Judge Rinder a Judge Judy. Roedd llawer hefyd yn sylweddoli y gallai fod angen cyfreithiwr weithiau.

Roedd dysgwyr mewn ysgolion uwchradd ac AB yn bryderus ar unwaith am ba mor hir y byddai'n cymryd i'r barnwr benderfynu pwy sy'n iawn:

**"Faint o amser fydd hynny'n ei gymryd?"**

**"A fydd hyn yn 6 wythnos neu 7 wythnos neu fwy?"**

**"Pa mor hir fydd yn cymryd i gael barnwr i siarad â mi; maen nhw'n brysur iawn"**

**"Faint o amser mae angen i mi aros i'r barnwr gymryd fy achos?"**

**"Pam na allan nhw gael fy nghynllun yn iawn"**

## Rhieni

C11 – Beth ydych chi'n ei feddwl ynglŷn â sut y bydd yn gweithio pan fyddwch yn gofyn i farnwr benderfynu pwy sy'n iawn?

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn gwybod
Cyfanswm y pleidleisiau	39	16	6
%	64	26	10

Yn wahanol i ymateb y dysgwyr i'r cwestiwn hwn, roedd y rhieni'n fwy rhanedig ond roedd mwyafrif sylweddol o blaid y cynnig.

**"Roedd rhieni dan ddigon o straen heb orfod mynd i'r llys"**

**"Pwy oedd yn mynd i dalu i ni fynd i'r llys?"**

**"Pa mor hir fyddai'n cymryd i'r achos gael ei glywed?"**

Roedd rhai rhieni'n pryderu bod yr opsiwn o fynd at farnwr yn rhoi mwy o bwysedd a chyfrifoldeb arnynt, oedd yn annheg, gan fod yr holl bwyslais ar yr hyn yr oedd angen iddyn nhw ei wneud.

## Plant a phobl ifanc

C12 – Pan fyddwch yn derbyn eich cynllun, os nad ydych yn fodlon ag ef, mae gennych chi neu'ch teulu 8 wythnos i ddweud wrth y barnwr eich bod yn anfodlon â phenderfyniad a wnaed am eich ADY. Yn ystod yr 8 wythnos hyn bydd angen i chi neu'ch teulu ddweud wrth y barnwr yr holl resymau pam nad ydych yn fodlon â'r penderfyniad. Gelwir hyn yn achos.

Beth ydych chi'n ei feddwl ynglŷn â faint o amser fydd gennych chi neu'ch teulu i ysgrifennu at y barnwr yn dweud pam nad ydych chi'n fodlon â'r cynllun?

Lleoliad	Cytuno	Anghytuno Rhy hir	Anghytuno Rhy fyr	Ddim yn gwybod
Ysgolion Arbennig	41 (67%)	2 (3%)	14 (23%)	4 (7%)
Ysgolion Cynradd	27 (45%)	11 (18%)	22 (37%)	0 (0%)
Ysgolion Uwchradd	10 (56%)	8 (44%)	0 (0%)	0 (0%)
Colegau Addysg Bellach	20 (100%)	0 (0%)	0 (0%)	0 (0%)
Uned Cyfeirio Disgyblion	4 (50%)	4 (50%)	0 (0%)	0 (0%)
Cyfanswm y pleidleisiau	102	25	36	4
%	61	15	22	2

Roedd y mwyafrif o blaid y cynnig hwn, ac roedd gan rai ymatebwyr y canlynol i'w ddweud:

**“Rwyf am gael amser i feddwl am yr hyn rwyf am ei ddweud”**

**"Byddwn i'n gwybod yn gyflym iawn os nad oedd fy nghynllun yn gweithio i mi"**

**“Roedd dosbarth CA2 yn credu’n unfrydol y gallai fod angen iddynt hwy a rhieni gael mwy nag 8 wythnos i greu eu hachos, gan gytuno y byddai tua 12 wythnos yn well.”**

**“Mae 8 wythnos yn iawn, ond po gyntaf y gwnaf i hyn, gorau yn y byd fydd hynny i mi”**

Roedd sylwadau gan y rhai nad oeddent o blaid yn cynnwys:

**“Nid oes angen 8 wythnos arnoch oherwydd fe ddylech chi fod yn gwybod pam rydych chi eisiau cwyno neu does dim byd i gwyno amdano mewn gwirionedd”**

**“Byddent yn gwybod pam nad oeddent yn fodlon â'u cynllun, felly gallen nhw ysgrifennu llythyr yn gyflym”**

**"Os nad ydw i'n fodlon â'r cynllun, ni fyddaf yn cymryd 8 wythnos i ddweud wrth rywun"**

## Rhieni

**C12 – Pan fyddwch yn derbyn eich cynllun, os nad ydych yn fodlon ag ef, mae gennych chi neu'ch teulu 8 wythnos i ddweud wrth y barnwr eich bod yn anfodlon â phenderfyniad a wnaed am eich ADY. Yn ystod yr 8 wythnos hyn bydd angen i chi neu'ch teulu ddweud wrth y barnwr yr holl resymau pam nad ydych yn fodlon â'r penderfyniad. Gelwir hyn yn achos.**

**Beth ydych chi'n ei feddwl ynglŷn â faint o amser fydd gennych chi neu'ch teulu i ysgrifennu at y barnwr yn dweud pam nad ydych chi'n fodlon â'r cynllun?**

Lleoliad	Cytuno	Anghytuno Rhy hir	Anghytuno Rhy fyr	Ddim yn gwybod
Cyfanswm y pleidleisiau	45	0	8	8
%	74	0	13	13

Roedd mwyafrif sylweddol o blaid y cynnig hwn, gyda neb yn meddwl bod y terfyn amser yn rhy hir.

Pan ofynnwyd pam eu bod o'r farn hon...

**“Erbyn i chi gyrraedd y cam hwn, rydych chi'n gwybod beth yw eich dadleuon, felly mae'n debygol y gallech wneud hyn yn gyflymach”**

## Plant a phobl ifanc

C13 – O fewn 4 wythnos i dderbyn eich achos, rhaid i'r awdurdod lleol neu'r coleg ddweud wrth y barnwr pam eu bod nhw'n credu bod eu Cynllun yn iawn. Beth ydych chi'n ei feddwl ynglŷn â faint o amser fydd gan awdurdodau lleol a cholegau i anfon achos at y barnwr?

Lleoliad	Cytuno	Anghytuno Rhy hir	Anghytuno Rhy fyr	Ddim yn gwybod
Ysgolion Arbennig	21 (34%)	22 (36%)	13 (21%)	5 (8%)
Ysgolion Cynradd	34 (57%)	16 (27%)	8 (13%)	2 (3%)
Ysgolion Uwchradd	9 (50%)	9 (50%)	0 (0%)	0 (0%)
Colegau Addysg Bellach	20 (100%)	0 (0%)	0 (0%)	0 (0%)
Uned Cyfeirio Disgyblion	0 (0%)	0 (0%)	8 (100%)	0 (0%)
Cyfanswm y pleidleisiau	84	47	29	7
%	50	29	17	4

Roedd hanner y rheiny a ymatebodd o blaid y terfyn amser arfaethedig o bedair wythnos:

**“Mae'n well na'r 6 wythnos a'r 7 wythnos”**

**“Mae hynny'n ddigon hir iddyn nhw”**

Nid oedd pawb yn cytuno:

**“Dylent fod yn gallu gwneud hyn yn gyflymach”**

Roedd pob un o'r ymatebwyr o'r Uned Cyfeirio Disgyblion o'r farn bod yr amserlen arfaethedig o bedair wythnos yn rhy fyr, tra bod pob un o'r dysgwyr AB yn cytuno â'r cynnig.



## Rhieni

**C13 – O fewn 4 wythnos i dderbyn eich achos, rhaid i'r awdurdod lleol neu'r coleg ddweud wrth y barnwr pam eu bod nhw'n credu bod eu Cynllun yn iawn. Beth ydych chi'n ei feddwl ynglŷn â faint o amser fydd gan awdurdodau lleol a cholegau i anfon achos at y barnwr?**

Lleoliad	Cytuno	Anghytuno Rhy hir	Anghytuno Rhy fyr	Ddim yn gwybod
Cyfanswm y pleidleisiau	8	44	2	7
%	13	72	3	11

Yn wahanol i'r carfannau dysgwyr, lle'r oedd hanner yr ymatebwyr o blaid y cynnig, dim ond 13% o rieni oedd yn cytuno â'r cynnig hwn. Roedd eu sylwadau'n cynnwys:

**“Os yw'r holl ffeithiau yn eu meddiant, y bydd ganddyn nhw o'r adolygiad, pam gwastraffu hyd yn oed mwy o amser? Dylent gyflwyno sut maent yn cyrraedd eu penderfyniad a gadael i'r barnwr benderfynu”**

## Plant a phobl ifanc

**C14 – Ydych chi'n credu mai'r pethau hyn yw'r pethau iawn i Gydlynwyr ADY eu gwneud i helpu plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol?**

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn gwybod
Ysgolion Arbennig	61 (100%)	0 (0%)	0 (0%)
Ysgolion Cynradd	60 (100%)	0 (0%)	0 (0%)
Ysgolion Uwchradd	18 (100%)	0 (0%)	0 (0%)
Colegau Addysg Bellach	20 (100%)	0 (0%)	0 (0%)
Uned Cyfeirio Disgyblion	8 (100%)	0 (0%)	0 (0%)
Cyfanswm y pleidleisiau	167	0	0
%	100	0	0

Roedd cefnogaeth unfrydol i'r tasgau arfaethedig ar gyfer Cydlynwyr ADY ar draws pob lleoliad; fodd bynnag, nododd un dysgwr mewn ysgol gynradd fod yn rhaid i dasgau fod yng nghyd-destun anghenion y dysgwr:

**“Mae'n dibynnu ar beth sy'n peri anhawster i chi”**

Mewn trafodaeth, teimlai un grŵp ysgol uwchradd fod y cymorth maent yn ei dderbyn ar hyn o bryd gan eu Cydlynwyr ADY yn dda iawn. Roedd eu problemau'n ymwneud ag athrawon eraill nad oeddent yn dilyn y Cynllun er iddo gael ei gyfathrebu gan y

Cydlynnydd ADY. Pan ofynnwyd iddynt pam eu bod yn meddwl bod hyn yn digwydd, dyma'r hyn oedd ganddyn nhw i'w ddweud:

**"Mae angen eu dilyn ar draws yr holl ysgol"**

**"Os oes gennym athro cyflenwi, nid ydynt bob amser yn gwybod beth yw fy anghenion - mae angen iddynt ddeall y sefyllfa"**

**"Ni all pobl weld fy anghenion"**

Yn dilyn y digwyddiad ymgysylltu, eglurodd y Cydlynnydd ADY fod cyfyngiadau ar y wybodaeth y gellir ei datgelu yn achos athrawon cyflenwi; fodd bynnag, byddent yn gallu gweld bod gan yr unigolion anghenion a gofynion, gan fod y system a ddefnyddir i gymryd y gofrestr yn cynnwys y wybodaeth hon.

## Rhieni

**C14 – Ydych chi'n credu mai'r pethau hyn yw'r pethau iawn i Gydllynwyr ADY eu gwneud i helpu plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol?**

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn gwybod
Cyfanswm y pleidleisiau	48	4	9
%	79	7	15

Roedd mwyafrif sylweddol, 79% o rieni o blaid y cynnig hwn.

Dywedodd y rhieni a oedd yn adnabod y Cydlynnydd AAA mewn nifer o ysgolion eu bod eisoes yn gwneud hyn; lle'r oedd yn gweithio, roedd yn ymddangos ei fod yn gweithio'n dda. Roedd rhieni nad oedd ganddynt berthynas â'r Cydlynnydd AAA yn llawer mwy sinigaidd ac anfodlon. Roeddent yn teimlo ei fod yn ffordd o israddio'r rôl a'i "rhoi i unrhyw un oedd ar gael". Roeddent yn teimlo nad oedd gan y Cydlynwyr AAA presennol, a oedd hefyd yn dysgu, unrhyw amser i'w plant nac iddyn nhw, ac roeddent yn amheus iawn o ran sut y byddai'r newidiadau arfaethedig o unrhyw fudd iddyn nhw.

## Plant a phobl ifanc

**C15 - Ydych chi'n credu ei bod yn bwysig bod y Cydlynnydd ADY yn athro neu'n rhywun sydd eisoes yn Gydlynnydd AAA?**

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn gwybod
Ysgolion Arbennig	12 (20%)	49 (80%)	0 (0%)
Ysgolion Cynradd	5 (8%)	51 (85%)	4 (7%)
Ysgolion Uwchradd	8 (44%)	10 (56%)	0 (0%)
Colegau Addysg Bellach	0 (0%)	20 (100%)	0 (0%)
Uned Cyfeirio Disgyblion	0 (0%)	8 (100%)	0 (0%)
Cyfanswm y pleidleisiau	25	138	4
%	15	83	2

Dim ond 15% o'r rheiny a ymatebodd oedd o blaid y cynnig hwn.

Roedd y canlynol ymhlith y sylwadau gwrthwynebus a gafwyd gan ysgolion cynradd:

**“Dydw i ddim yn credu bod rhaid iddo fod yn athro”**

**“Does gan athrawon ddim digon o amser”**

**“Beth os mai fy athro yw'r Cydlynnydd ADY, a dwi ddim yn hoffi'r cynllun?”**

**“At bwy ydych chi'n mynd i siarad os mai'ch athro yw'r Cydlynnydd ADY ac rydych chi'n meddwl nad yw'r athro yn eich helpu'n iawn?”**

Roedd pob un o'r ymatebwyr mewn colegau AB yn gwrthwynebu'r cynnig:

**“Nid yw athrawon bob amser yn dda os ydych chi'n wahanol”**

**“Mae'r cynorthwyyr addysgu a fy nghynorthwyydd personol yn fy helpu; dydyn nhw ddim yn athrawon”**

Roedd dau o'r grwpiau ysgol uwchradd yn gwrthwynebu'r cynnig yn unfrydol:

**“Rydyn ni angen rhywun sydd ag amser i ni”**

**“Beth os yw'r athro sydd wrth wraidd y broblem yn rhy brysur i siarad â mi pan fydd gen i broblem?”**

**“Mae Cydlynnydd ADY ac athro yn swyddi gwahanol”**

Roedd un grŵp ysgol uwchradd o blaid bod y Cydlynnydd ADY yn gallu bod yn athro; serch hynny, gallai presenoldeb y Cydlynnydd ADY poblogaidd iawn yn yr ystafell fod wedi effeithio ar y bleidlais hon.

## Rhieni

**C15 - Ydych chi'n credu ei bod yn bwysig bod y Cydlynnydd ADY yn athro neu'n rhywun sydd eisoes yn Gydlynnydd AAA?**

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn gwybod
Cyfanswm y pleidleisiau	2	53	6
%	3	87	10

Dim ond 3% o gefnogaeth a roddwyd i'r cynnig hwn gan y rhieni a bleidleisiodd. Roedd y canlynol ymysg y sylwadau gwrthwynebus:

**“Nid oes gan athrawon amser i fod yn Gydlynnydd ADY, mae angen iddi fod yn rôl benodol.”**

**“Mae'n rhaid i Gydlynwyr ADY fod ar gael i siarad â rhieni y tu allan i oriau ysgol hefyd”**

Serch hynny, roedd un rhiant yn poeni pe na bai'r rôl hon yn un i athro, y byddent yn mynd am yr opsiwn rhataf, gan ddefnyddio staff heb gymwysterau. Fodd bynnag, nid oedd llawer o gefnogaeth i'r farn hon, hyd yn oed gan rieni eraill yn yr un sefydliad.

Roedd pob rhiant yn meddwl y dylai'r person fod â rôl glir, wedi'i hyfforddi'n dda i wneud y swydd, a bod â'r amser penodedig i gyflawni'r rôl.

Nododd nifer o rieni hefyd bod angen i Gydlynwyr ADY yn aml fod ar gael y tu allan i oriau craidd yr ysgol, sy'n golygu y gallai fod yn syniad gwell i rywun sydd ddim yn athro gweithredol fod yn y rôl hon.

## 6. Casgliad

Cynhaliwyd 21 o weithdai ymgysylltu, gyda chyfanswm o 228 o gyfranogwyr, ac er bod cefnogaeth gyffredinol i'r cynigion (59%), nid yw hyn yn disgrifio patrwm yr ymatebion yn llawn.

Derbyniodd y cynigion a amlinellwyd yn chwech o'r cwestiynau, (C1, C2, C9, C10, C11 a C14), gefnogaeth oedd bron iawn yn unfrydol (97%); fodd bynnag, ni chafodd rhai o'r cynigion eraill yr un croeso. Denodd cwestiynau C4, C5, C6, C7, C8, C12 a C13, oedd yn ymwneud â chynigion ynglŷn ag amserlenni ar gyfer:

- creu cynllun datblygu unigol (CDU),
- adolygu CDU,
- casglu tystiolaeth, a'r
- amserlen ar gyfer apelio,

lai o gefnogaeth gan y cyfranogwyr, gyda dim ond 34% o blaid y rhain. Yn gyffredinol, dangosodd yr adborth i'r cwestiynau hyn bod cyfranogwyr o'r farn bod yr amser arfaethedig i sefydliadau gwblhau tasgau'n rhy hir, gan beri oedi o ran derbyn cefnogaeth.

Yn ogystal, roedd mwyafrif sylweddol yn gwrthwynebu Cwestiwn 15, a oedd yn awgrymu y dylai'r Cydlynnydd ADY fod yn athro, gyda 84% yn pleidleisio yn erbyn.

I gloi, derbyniwyd cefnogaeth dda i'r egwyddorion a adlewyrchwyd yng nghwestiynau'r ymgynghoriad; felly hefyd yr egwyddor i leihau'r cyfnod a ganiateir ar gyfer prosesau o'u hyd presennol. Fodd bynnag, ystyriwyd bod y cynigion hyn i gwtogi ar yr amser a ganiateir ar gyfer prosesau'n rhy geidwadol, gan felly ganiatáu parhad rhwystrau diangen o fewn y system ADY, gan beri oedi i ddysgwyr wrth dderbyn y cymorth sydd ei angen arnynt.